Cite this document as:
ECSA (European Citizen Science Association). 2015. Ten Principles of Citizen Science. Berlin. http://doi.org/10.17605/OSF.IO/XPR2N

European Citizen Science Association

# Deg egwyddor sy'n perthyn i wyddoniaeth y dinesydd

Cysyniad hyblyg y gellir ei addasu a'i ddefnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a disgyblaethau yw gwyddoniaeth y dinesydd. Cafodd y datganiadau isod eu datblygu gan weithgor 'Rhannu arferion gorau a meithrin gallu' yr *European Citizen Science Association*, dan arweiniad y *Natural History Museum* yn Llundain gyda chyfraniadau gan sawl aelod o'r Gymdeithas, a hynny er mwyn pennu rhai o'r egwyddorion allweddol sydd, yn ein barn ni fel cymuned, yn sylfaenol i arferion da mewn gwyddoniaeth y dinesydd.

1. **Mae prosiectau gwyddoniaeth y dinesydd yn cynnwys dinasyddion mewn ymdrechion gwyddonol sy'n esgor ar wybodaeth neu ddealltwriaeth newydd.**
   Gall dinasyddion fod yn gyfranwyr, yn gydweithwyr, neu'n arweinwyr prosiectau a rhaid iddynt fod â rôl arwyddocaol yn y prosiect.

2. **Mae prosiectau gwyddoniaeth y dinesydd yn esgor ar ganlyniadau gwyddonol dilys.**
   Er enghraifft, ateb cwestiwn ymchwil neu gyfarwyddo camau cadwraethol, penderfyniadau rheoli neu bolisïau amgylcheddol.

3. **Mae gwyddonwyr proffesiynol a gwyddonwyr 'dinasyddion' yn elwa ar gymryd rhan.**
   Gall y manteision gynnwys cyhoeddi canlyniadau gwaith ymchwil, cyfleoedd dysgu, mwynhad personol, manteision cymdeithasol, boddhad o gyfrannu at dystiolaeth wyddonol e.e. ar gyfer ymdrin â materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a thrwy hynny, y potensial o ddylanwadu ar bolisïau.

4. **Os dymunant, gall gwyddonwyr 'dinasyddion' gymryd rhan mewn amryfal gamau yn y broses wyddonol.**
   Gall hyn gynnwys datblygu'r cwestiwn ymchwil, cynllunio'r dull, casglu a dadansoddi data, a chyfleu'r canlyniadau.

5. **Mae gwyddonwyr 'dinasyddion' yn cael adborth yn sgil y prosiect.**
   Er enghraifft, sut y caiff eu data ei ddefnyddio a beth yw canlyniad y gwaith ymchwil neu'r polisi, neu'r canlyniad cymdeithasol.

6. **Caiff gwyddoniaeth y dinesydd ei ystyried yn ddull ymchwil fel unrhyw un arall, gyda chyfyngiadau a rhagfarnau y dylid eu hystyried a'u rheoli.**
   Fodd bynnag, yn wahanol i ddulliau ymchwilio traddodiadol, mae gwyddoniaeth y dinesydd yn cynnig mwy o gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghyd â sicrhau bod gwyddoniaeth yn fwy democrataidd.

7. **Caiff data a metadata prosiectau gwyddoniaeth y dinesydd eu rhyddhau i'r cyhoedd a, phan fo modd, caiff y canlyniadau eu cyhoeddi mewn fformat mynediad agored.**
   Efallai y bydd data'n cael ei rannu yn ystod, neu ar ôl, y prosiect, oni bai bod pryderon ynghylch diogelwch neu breifatrwydd yn rhwystro hyn rhag digwydd.

8. **Caiff gwyddonwyr 'dinasyddion' eu cydnabod yng nghanlyniadau a chyhoeddiadau'r prosiectau.**

9. **Caiff rhaglenni gwyddoniaeth y dinesydd eu gwerthuso ar sail eu canlyniadau gwyddonol, ansawdd eu data, y profiad a roddant i'r cyfranogwyr a'u heffeithiau ehangach o safbwynt y gymdeithas neu bolisïau.**

10. **Mae arweinwyr prosiectau gwyddoniaeth y dinesydd yn ystyried materion cyfreithiol a moesegol yn ymwneud â hawlfraint, eiddo deallusol, cytundebau rhannu data, cyfrinachedd, priodoliad, ac effeithiau amgylcheddol unrhyw weithgareddau.**

Medi 2015, Llundain